

## ASTUDIAETH ACHOS CYFLOGWYR

HOARE LEA

Rydym yn ymgynghoriaeth beirianeg arobryn gyda thîm creadigol o beirianwyr, dylunwyr ac arbenigwyr technegol. Rydym yn darparu atebion arloesol i heriau peirianeg a dylunio cymhleth ar gyfer adeiladau.

Rydym yn ddatrys wyr problemau sy'n meddwl am sut mae lle yn gwneud i chi deimlo pan fyddwch yn camu i mewn – rydym yn dod ag adeiladau'n fyw. Rydym yn goresgyn pob her gyda dyfeisgarwch, penderfyniad a balchder.

Rydym yn cymryd cyfrifoldeb personol dros gyflawni gweledigaeth gyffredin, gan gyfuno perthnasau cryf â rhagoriaeth dechnegol. Pan fyddwn yn cychwyn ar daith gyda phrosiect, rydym yn ymrwymo i'r cleient ac i'n gilydd.

### Pwysigrwydd cymwysterau

Mae dwy ran bwysig i'r cymhwyster.

#### 1) Adeiladu

Mae'r cymhwyster yn bwysig i economi adeiladu Cymru; ar hyn o bryd mae llai o bobl ifanc yn dod drwy'r diwydiant a diffyg difrifol o ran cyfleoedd i brentisiaid ddysgu'r pethau sylfaenol.

Ar hyn o bryd mae Cymru'n dibynnu ar rannau eraill o'r DU i gyflenwi gweithwyr adeiladu ychwanegol ar ein safleoedd, sy'n golygu costau ychwanegol ar ddatblygiadau yng Nghymru.

Pe bai mwy o bobl ifanc gymwysedig yn cael cyfle i ddysgu am y diwydiant drwy brentisiaethau, byddai hyn o fudd i'r dysgwyr gyda gwaith ymarferol ond byddai hefyd yn caniatáu i gostau gael eu lleihau drwy gyflogi gweithwyr lleol.

#### 2) Yr Amgylchedd Adeiledig

Ar hyn o bryd, mae gwaith adeiladu ar draws y DU yn cyfrif am 40-50% o'n hallyriadau carbon. Mae angen lleihau hyn yn sylweddol ac yn gyflym. Un ffordd o helpu ein diwydiant adeiladu i ddysgu o'i gamgymeriadau yn y gorffennol yw drwy addysg gynnar.

Mae Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu a Pheirianwyr Cynaliadwyedd yn y diwydiant adeiladu yn helpu i ysgogi a rhoi dealltwriaeth glir o sut y gellir gwneud hyn, a gall hyn fod drwy adeiladwaith yr adeilad neu drwy dechnolegau adnewyddadwy a dadansoddiad o berfformiad yr adeilad.

Mae'r diwydiant Gwasanaethau Adeiladu yn helpu i gynghori defnyddwyr terfynol, cleientiaid, penseiri a'r tîm adeiladu ar sut y gellir cyfyngu ein hallyriadau i sero a sicrhau cylch bywyd carbon isel.

Mae gan y cymhwyster ddigon o bynciau a llwybrau amrywiol i ganiatáu i fyfyrwyr gael blas ar bob pwnc a gwneud penderfyniad mwy gwybodus am gyfeiriad eu gyrfa. Boed hynny drwy waith adeiladu ymarferol neu drwy ymgynghori ar strategaethau ynni, datblygu gwaith dylunio, neu atebion peirianyddol.

## Beth fydd y cymwysterau newydd yn ei olygu i'm cwmni

Byddai'r cymhwyster newydd yn caniatáu i gwmnïau gynnig lleoedd i fwy o brentisiaid, gan ddarparu eu cyfleoedd cyntaf a rhoi blas ar y diwydiant iddynt.

## Rhesymau pam y byddwn yn argymhell gyrfa yn fy niwydiant/sector

Dim ond ers pum mlynedd rwyf wedi bod yn y diwydiant ond yn y cyfnod byr hwnnw, rwyf wedi gweithio ar nifer o brosiectau gwahanol: ysgolion, ysbytai, swyddfeydd diogelwch uchel, ffermydd pysgod yn y Dwyrain Canol, adeiladau preswyl uchel yn Llundain a chymysgedd o adeiladau'r llywodraeth.

Y tu allan i'r gwaith rwyf wedi teithio o amgylch y byd gyda Rhwydwaith y Peirianwyr Ifanc y Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu fel Cadeirydd rhanbarth De Cymru.

Rwyf yn eistedd ar rai pwyllgorau sy'n edrych ar ddatblygu safonau newydd i wella'r diwydiant. Rydym hefyd yn edrych ar dechnolegau newydd y gellir eu defnyddio o fewn y diwydiant, megis Hydrogen.

Mae'r sector gwasanaethau adeiladu mor amrywiol; nid yw llawer o bobl yn gwybod nac yn deall yr hyn rydym yn ei wneud ond rydym yn hanfodol o fewn y diwydiant.

Mae cynifer o gyfleoedd, nid yn unig yn y prosiectau o ddydd i ddydd, ond o fewn y pwyllgorau sy'n dylanwadu ar y diwydiant.

## ASTUDIAETH ACHOS LLYSGENNAD

Luke Yeates-Mayo, Uwch Beiriannydd



### Pam y cefais fy nenu at y diwydiant

Y gwir amdani yw y syrthiais i mewn i'r diwydiant, y syniad cyntaf gefais i ar ôl cymhwyso oedd mynd i weithio ar y rigiau olew, ond ar ôl lleoliad byr dros yr haf yn un o ymgynghorwyr peirianeg Gwasanaethau Adeiladu mwyaf blaenllaw'r byd, newidiodd popeth.

Yr hyn sy'n fy nenu nawr yw dysgu a datblygu fy sgiliau'n gyson. Nid oes dau brosiect yr un fath. Rhaid i chi allu addasu'n gyflym i newidiadau na allwch chi eu rhagweld.

Mae mwy i'w ddysgu bob amser.

### Rwy'n mwynhau astudio neu weithio yn y diwydiant hwn oherwydd ...

Ni fyddwch byth yn diflasu wrth weithio yn y diwydiant adeiladu, yn enwedig ym myd peirianeg Gwasanaethau Adeiladu. Mae gormod o lwybrau y gallwch eu cymryd.

Unwaith y byddwch yn deall y pethau sylfaenol, mae wedyn yn fater o ddeall sut i'w cymhwyso o brosiect i brosiect. Ehangu eich gwybodaeth ar hyd y ffordd, gan addasu i newidiadau pensaernïol a strwythurol, a newidiadau mewn technoleg, cleientiaid a'r llywodraeth.

Unwaith y byddwch yn Beiriannydd Siartredig, drwy CIBSE, gallwch fynd i unrhyw le yn y byd, gweithio gyda gwahanol bobl, diwylliannau, rhanbarthau, amgylcheddau, gan ehangu eich gwybodaeth am beirianeg Gwasanaethau Adeiladu ymhellach.

### Cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol

Bydd cyfleoedd gyrfa wastad yn codi ac mae mwy o arian yn cael ei gynnig o hyd, ond nid dyma'r dewis gorau bob amser.

Cefais fy nghynghori erioed i ddysgu hanfodion peirianeg yn gyntaf: bydd yn rhaid ichi ddod yn ôl at y rhain dro ar ôl tro. Mae angen i bobl ymddiried yn yr hyn rydych chi'n ei ddweud. Byddwch y peiriannydd Gwasanaethau Adeiladu gorau posibl a bydd y gweddill yn dod yn sgil hynny.

Mae'r cyflogau arferol ym myd ymgynghori Gwasanaethau Adeiladu Cymru yn edrych fel y ffigurau isod sydd wedi'u cymryd o Gyfnodolyn CIBSE:

<https://www.cibsejournal.com/general/hays-salary-survey-2019-bridge-over-troubled-water/>

Yn dibynnu ar addysg.

**Peiriannydd Iau** – 1 – 5 mlynedd o brofiad £22,000 – £30,000

**Peiriannydd Canolradd** – 5 – 7 mlynedd o brofiad £28,000 – £40,000

**Uwch Beiriannydd** - 7-10 mlynedd o brofiad £40,000 – £45,500

Ar ôl i chi basio'r lefelau uwch, gall eich gyrfa ddatblygu mor gyflym ag y mynnwch. Cewch gyfleoedd i redeg mwy o brosiectau a rheoli mwy o dimau.

**Cysylltai** – 10 mlynedd ac yn uwch £40,000 - £45,000 ynghyd â bonws

**Cyfarwyddwr** – 15 mlynedd ac yn uwch £52,000 - £60,000 ynghyd â bonws